



Papur y Porth

Rhifyn 18 Chwefror 2026



Croeso gan y Pennaeth

Mae'r hanner tymor hwn wedi bod yn un prysur dros ben ac rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r rhieni am eich hamynedd gyda'r eira a tywydd garw a gawsom ar ddechrau'r tymor yn dilyn y Nadolig. Hoffwn hefyd estyn diolch mawr i'r CRHA am godi arian yn y Disgo Santes Dwynwen ac am brynu gwerth dros £3,000 o gyfarpar i ni. Mae'r arian rydych chi'n ei godi yn mynd yn bell iawn ac mae'r disgyblion wrth eu bodd gyda'r dodrefn newydd. Mae llwyth o bethau wedi digwydd dros yr hanner tymor yn yr ysgol a gallwch ddarllen am rhain isod - rhai o'r uchafbwyntiau Trip Preswyl Blwydyn 4 i Gaerdydd a chystadleuaethau Twrnament yr Urdd lle mae'r plant wedi cystadlu i safon uche! iawn. Rydym wedi cynnal nosweithiau rhieni i gloi'r tymor ac rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfle i agor y drysau er mwyn i athrawon rannu cynnydd a thargedau eich plentyn gyda chi.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaus a diolch enfawr i'r staff gwyb sy'n sicrhau yr holl gyfleoedd arbennig i'n disgyblion arbennig.



Welcome from the Headteacher



This half term has been extremely busy, and I would like to begin by thanking parents for your patience with the snow and bad weather we experienced at the start of the term following Christmas. I would also like to extend a big thank you to the PTA for raising money during the Santes Dwynwen Disco and for purchasing over £3,000 worth of equipment for us. The money you raise goes a very long way and the pupils are delighted with the new furniture. A great deal has happened in school over the half term and you can read about these below – some of the highlights include the Year 4 Residential Trip to Cardiff and the Urdd Tournament competitions where the children competed to a very high standard. We have held parents' evenings to close the half term, and we are very grateful for the opportunity to open the doors so that teachers can share your child's progress and targets with you.

Thank you to everyone for your continued support, and a huge thank you to the wonderful staff who ensure all the special opportunities for our very special pupils.

Presenoldeb / Attendance

Pob disgybl, ar amser, pob dydd.

Every student, on time, every day

PRESENOLDEB
yr Ysgol
BODDHAOL

93.70%

The school
ATTENDANCE
SATISFACTORY

Canran Presenoldeb	Erbyn diwedd y flwyddyn By the end of the year	Canlyniad / Outcome
95-100%	Y cyfle gorau o lwyddiant <i>Best chance of success</i>	Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. <i>Your child is taking full advantage of every learning opportunity.</i>
90-95%	Colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu <i>At least 2 weeks of learning missed</i>	Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith. <i>Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work.</i>
85-90%	Colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu <i>At least 4 weeks of learning missed</i>	Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrth ych i ddal i fyny â gwaith. <i>Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work.</i>
80-85%	Colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu <i>At least 5 ½ weeks of learning missed</i>	Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu. <i>Your child's poor attendance has a significant impact on learning.</i>
Islaw/ under 80%	Colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu <i>At least 7½ weeks of learning missed</i>	Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn. <i>Your child is missing out on a broad and balanced education.</i>

CRhA/PTA

Diolch yn fawr unwaith eto i'r CRhA am ddarparu diodydd a byrbrydau ar gyfer ein disgo Santes Dwynwen. Rydym hefyd yn falch iawn o rannu ein bod wedi derbyn pedair tipi newydd a chysgodfan tawel ar yr iard chwarae. Ariannwyd y rhain yn garedig gan y CRhA, gan ddefnyddio arian a gasglwyd drwy amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, ac o gyfraniadau hael gennych chi, ein rhieni. Mae eich cefnogaeth barhaus yn gwneud gwir wahaniaeth i'n cymuned ysgol — diolch o galon.

A huge thank you once again to our wonderful PTA for providing drinks and snacks for our St Dwynwen's disco. We are also delighted to share that we have received four new tipis and a portable quiet area for our outdoor provision. These were kindly funded by the PTA, using money raised through their various events and through the generous donations from you, our parents. Your continued support makes a real difference to our school community — thank you.



Y Gymuned/The Community



Mae'r sesiynau rhyngweithiol i rieni a phlant i gefnogi dysgu eich plentyn drwy llythrennedd, rhifedd a gemau buarth wedi bod yn lwyddiant mawr unwaith eto yn ystod yr hanner tymor Diolch yn fawr i'r holl deuluoedd sydd wedi cefnogi a'r ymgysylltiad Mwy o gyrsiau a sesiynau ar y ffordd ar ôl hanner tymor – cadwch lygad am neges destun.

The interactive sessions for parents and children to support your child's learning through literacy, numeracy and yard games have once again been a huge success this half term. A big thank you to all the families for your support and engagement. More courses and sessions coming after half term – keep an eye on our app for messages to book a space.

Diogelu wrth ollwng a chasglu



Er mwyn sicrhau diogelwch ein disgyblion hoffwn atgoffa rhieni o'r trefniadau prynhawn a bore wrth ollwng a chasglu:

- Parciwch mewn bae priodol yn unig — **nid ar linellau melyn dwbl.**
- Peidiwch a stopio'r car ar yr unffordd a gollwng eich plentyn ar yr hewl a gyrru i ffwrdd.
- Rhaid **cerdded eich plentyn i glwyd yr ysgol** bob bore.
- **Ni ddylai unrhyw blentyn iau na Blwyddyn 5** gerdded at y glwyd ar ei ben ei hun. Mae rhai rhieni'n gadael i'w plant ifanc gerdded tuag at y glwyd heb oedolyn, gan wyllo o bell — **nid yw hyn yn ddiogel.** Cofiwch: **nid yw'r disgyblion o dan ein gofal tan eu bod wedi croesi i mewn i iard yr ysgol yn y bore.**

Yn ogystal, hoffem bwysleisio bod rhai disgyblion **yn rhedeg o gwmpas y brif fynedfa ar ddiwedd y dydd heb oruchwyliaeth.** Dylai eich plentyn **sefyll gyda chi** tra'n aros am frodyr/chwiorydd — nid chwarae, neidio nac esgyn ar ein planwyr neu'n cadeiriau. **Mae rhedeg a neidio ar ein planwyr yn difrodi ardal yr ysgol. Mae angen i bawb barchu'r arhosfan o flaen yr ysgol a diogelu eich plant fel blaenoriaeth.**

Diolch am eich cydweithrediad wrth helpu i gadw ein disgyblion yn ddiogel bob amser.

Safeguarding during drop-off and pick-up



To ensure the safety of all pupils, we would like to remind parents of our morning and afternoon drop-off and collection procedures:

- Please park only in designated bays — **not on double yellow lines**.
- Do not stop your car and drop your child in the middle of the one way and drive off.
- You must **walk your child to the school gate** each morning. **No child younger than Year 5** should be walking to the gate alone. Some parents are allowing young children to walk to the gate while watching from a distance — **this is not safe**. Remember: **pupils are not under our supervision until they have entered the school yard in the morning**.
- We have also noticed some pupils **running around the school grounds unsupervised at the end of the day**. Your child should **remain with you** while waiting for siblings — not running, playing, jumping, or climbing on our planters or chairs. **Running and jumping on the planters damages the school environment. Everyone must respect the front-of-school waiting area and prioritise the safety of all children.**

Thank you for your cooperation in helping us keep all pupils safe.

Cymreictod Chwefror

06

Chwefror

Idiom y Mis

Arlwys y glaw.

- “Mae hi’n arllwys y glaw!”
- Glawio yn ddi-stop.
- Glaw yn syrthio’n drwm ac heb unryw olwg o stopio.



Patrwm y Mis

“Fi ddim”

“Dydw i ddim”

“Fi ddim yn hoffi afalau.” ✗

“Dydw i ddim yn hoffi afalau.” ✓

Gair y Mis

“
Mentrus

(adventurous, taking risks)

“Rwyf ti’n blentyn mentrus tu hwnt!”

Golygu: bodlon cymryd risg, anturus.



SLIDES

Gofynnwn am eich cefnogaeth i annog y plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg gartref ac yn yr ysgol. Byddwn yn defnyddio ein cychwynion brawddegau, gair y mis ac idiom Chwefror i hyrwyddo Cymreictod.

Cymreictod Mawrth

07

Mawrth

Patrwm y Mis

"Bag fi"

"Fy mag"

"Gallai fynd i ôl bag fi?" ✗

"Gallai fynd i ôl fy mag?" ✓

66



Gair y Mis

Creadigol

(creative)

"Yn y Cwtsh Creadigol, byddwch yn creu darn o Gelf/cyfansoddi Cerddoriaeth."

Golygu: eich bod yn gallu creu neu meddwl am rywbeth mewn ffordd gwahanol.

Idiom y Mis

Gwneud cawl o bethau.

- Pethau'n mynd o'i le.
- Gwneud camgymeriadau.
- Sefyllfa'n mynd o ddrwg i waeth.



gwneud cawl o bethau

We kindly ask for your support in encouraging pupils to use more Welsh at home and in school. We will be using our sentence starters, word of the month and February idiom to promote Welshness.

Meithrin

Mae plant bach y meithrin rhan amser wedi bod yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau sy'n helpu i ddatblygu eu sgiliau llawdrin manwl, megis trin gwrthrychau bach, defnyddio offer crefft, a gweithgareddau sy'n annog pigo, pinsio, rhwygo a thynnu. Mae'r profiadau hyn yn chwarae rôl bwysig wrth gryfhau cyhyrau bach y dwylo a'r bysedd. Drwy'r gweithgareddau hyn, mae'r plant nid yn unig yn datblygu eu gallu corfforol, ond hefyd yn meithrin canolbwyntio, dyfalbarhad a hyder. Mae'n hyfryd gweld faint o frwdfrydedd maen nhw'n ei ddangos wrth roi cynnig ar heriau newydd!



The children of our part-time nursery have been enjoying a variety of activities that help develop their fine motor skills, such as handling small objects, using craft tools, and activities that encourage picking, pinching, ripping and pulling. These experiences play an important role in strengthening the small muscles of the hands and fingers. Through these activities, the children not only develop their physical ability, but also foster concentration, perseverance and confidence. It's been lovely to see how much enthusiasm they have shown when trying new challenges.



Derbyn

Mae'r hanner tymor hwn wedi bod yn un prysur a chyffrous iawn i'r dosbarth. Bu'n bleser mawr croesawu'r plant meithrin llawn amser i'r dosbarth, ac maent wedi setlo'n dda iawn. Mwynhaodd y plant ddathlu Dydd Santes Dwynwen gyda disgo hwyliog, a oedd yn gyfle hyfryd i rannu diwylliant Cymreig. Rydym hefyd wedi dechrau cynllunio syniadau ar gyfer ein thema newydd, "O Am Fyd Rhyfeddol," gan rannu ein chwilfrydedd am y byd o'u cwrpas. Fel rhan o hyn, buom yn archwilio beth sy'n gwneud Porth Tywyn yn arbennig, gan annog y plant i siarad am eu cymuned leol a'r hyn maent yn ei garu amdani.



This half term has been a busy and exciting one for the class. We were delighted to welcome our full-time nursery children, who have settled in wonderfully. We enjoyed celebrating St Dwynwen's Day with a fun disco, which was a lovely opportunity to share Welsh culture and enjoy time together. The children have also begun planning ideas for our new theme, "*What a Wonderful World*," sharing their thoughts and curiosities about the world around them. As part of this, we explored what makes Burry Port such a special place, encouraging the children to talk about their local community and what they love about it.



Derbyn a Blwyddyn 1

Am hanner tymor prysur! Rydym wedi dechrau'r tymor gyda'n thema newydd, O mor hyfryd yw ein byd! Fe wnaethom ddechrau drwy archwilio ein hardal leol, Porth Tywyn. Diolch yn fawr am ddarparu bocsys cardfwrdd — mae'r plant wedi defnyddio'r rhain i greu arddangosfa wal 3D gwyb o Borth Tywyn. Mae'r gweithgaredd hwn wedi ein helpu i ddatblygu sgiliau iaith, arddodiad a dealltwriaeth dyfnach o nodweddion map.

Y tymor nesaf, byddwn yn edrych ar y byd ehangach, gan ddechrau gyda ffocws ar Gymru cyn archwilio ymhellach.

What a wonderful busy half term we've had. We've started the term with our new theme, *Our Wonderful World*. We began by exploring our local area, Burry Port. Thank you for providing cardboard boxes — the children have used these to create a fantastic 3D wall display of Burry Port. This activity has helped us develop language skills, positional language, and an early understanding of what a map is. Next term, we will be looking at the wider world, starting with a focus on Wales before exploring even further.



Blwyddyn 1

Yn ystod y hanner tymor hwn bu'r dysgu yn fywiog ac egniol yn Nosbarth Blwyddyn 1, gyda ffocws ar ddatblygu llythrennedd corfforol ar draws y cwricwlwm. Cyfunodd y disgyblion sgiliau o'r gwersi iaith a mathemateg â symudiad a chwarae, gan ddysgu trwy brofiad ymarferol. Mwynhawyd y ras odrif ac eilrif yn fawr, lle'r oedd meddwl cyflym a chydweithio yr un mor bwysig â rhedeg a chymbwysu. Yn y gêm symudiadau ffonolegol bu'r plant yn ymarfer seiniau, rhythm a gwrando wrth symud a chlapio mewn gwahanol ffyrdd. Uchafbwynt oedd ymweliad ag Ysgol Y Strade i gymryd rhan mewn sesiwn gydag Actif Sir Gâr, gan ddangos brwdfrydedd a hyder.




This half term has been lively and full of energy in Year 1, with a clear focus on developing physical literacy across the curriculum. The children combined skills from language and maths lessons with movement and play, learning through practical experiences. They enjoyed the odd and even number race, where quick thinking and teamwork were as important as running and balancing. During our phonological movement game, pupils practised sounds, rhythm and listening while hopping and clapping in different ways. A highlight was our visit to Ysgol Y Strade for a physical literacy session with Actif Sir Gâr, where they showed enthusiasm, confidence and cooperation throughout.





Blwyddyn 2



Hanner tymor prysur arall! Mwynhaodd Blwyddyn 2 daith ar Google Earth o amgylch Agen yn cymharu nodweddion gyda Porth Tywyn.

Rydym wedi bod yn dysgu Ffrangeg fel rhan o'n thema 'Ble mae Agen?'.

Rydym wedi bod yn dysgu ysgrifennu cyfarwyddiadau ac wedi eu defnyddio pan fyddai'r tywydd wedi caniatáu!

Cawsom ymweliad gan 'Sbectrwm' ac fe wnaethom fwynhau trafod ac adnabod ein hemosiynau.

Another busy half term! Year 2 enjoyed a walk around Agen on Google Earth and are comparing the town's features with the features of Burry Port

We have been learning French as part of our 'Ble mae Agen?' topic.

We have been learning to write instructions and have been in our mud kitchen to use instructions when the weather has allowed!

We had a visit from 'Sbectrwm' and we enjoyed discussing and identifying our emotions.



Blwyddyn 3



Cymerodd Blwyddyn 3 rhan mewn sesiwn nofio dwys dros bythefnos yn y ganolfan hamdden newydd, Pentre Awel. Ymdrech arbennig gyda pob un ohonynt yn gwella ei sgiliau. Da iawn bawb!

Year 3 have been taking part in an intensive two-week swimming programme at the brand-new leisure centre, Pentre Awel. A great effort with everyone improving their skills. Well done everyone!



Blwyddyn 4

Mwynhaodd Blwyddyn 4 eu taith breswyl gyntaf i Gaerdydd yn fawr ac wedi creu atgofion anhygoel a fydd yn para oes. Yn ystod ein hymweliad cyffrous, aethom i fowlio ac i'r sinema, archwiliom y Senedd, a mwynhaom daith gerdded o amgylch Bae Caerdydd. Gorffennom y daith gydag ymweliad gwych â Sain Ffagan, lle dysgon ni am hanes a diwylliant Cymru. Roedd yn brofiad gwych i bawb, ac roedd y plant wedi cynrychioli'r ysgol yn wych ar bob adeg.





Year 4 thoroughly enjoyed their first residential trip to Cardiff and made amazing memories that will last a lifetime. During our exciting visit, we went bowling and to the cinema, explored the Senedd, and enjoyed a walk around Cardiff Bay. We rounded off the trip with a fantastic visit to St Fagans, where we learned even more about Welsh history and culture. It was a wonderful experience for everyone, and the children represented the school brilliantly throughout.



Y Cyngor Eco

Ar ddechrau'r tymor cytunodd y Cyngor Eco ar darged i greu mannau o amgylch yr ysgol i ddenu bywyd gwyllt. Fel rhan o'r Big School's Bird Watch, daeth y Cyngor i Flwyddyn 1 i helpu i greu amgylchedd deniadol i adar ar dir yr ysgol. Mwynhaodd y plant baratoi mannau bwydo a dysgu sut i ofalu am fywyd gwyllt lleol. Roedd y pryfed genwair yn boblogaidd iawn ac fe achoson nhw lawer o gyffro!



At the beginning of the term, the Eco Council set a target to create areas around the school to attract wildlife. As part of the Big School's Birdwatch, members visited Year 1 to help create a bird-friendly environment in the school grounds. The children enjoyed preparing feeding areas and learning how to care for local wildlife. The mealworms were a particular highlight and were received with great excitement by everyone!



Y Cyngor Ysgol



Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn trefnu offer chwarae ac yn cynnal nosweithiau Aros a Chwarae i blant a rhieni. Diolch i Mrs Morris am fod allan yn y gwynt oer. Mwy i ddod ar ol hanner tymor!

The school council has been organizing play equipment and holding Stay and Play nights for children and parents. Thank you to Mrs Morris for being out in the cold winds. More to come after half term!

Mae'r tipiau tawel a ofynnwyd amdanynt gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi cyrraedd ac mae plant yn gallu mwynhau lle tawel ar yr iard yn ystod amseroedd chwarae.

The quiet tipis we requested from the PTA have arrived and children are able to enjoy a quiet space on the yard at playtimes.





Blwyddyn 5

Gwersi Gwyddoniaeth

Mae disgyblion Blwyddyn 5 wedi bod yn dysgu am ddeunyddiau ac yn nodi priodweddau amrywiol y deunyddiau. Buont yn ymchwilio i'r rhesymau pam y caiff deunyddiau penodol eu defnyddio at ddibenion gwahanol. Yn ogystal, cynhaliwyd prawf teg er mwyn canfod pa solidau sy'n hydoddi mewn dŵr.



Science Lessons

Pupils in Year 5 have been learning about materials and identifying a range of material properties. They investigated the reasons why specific materials are used for different purposes. In addition, a fair test was carried out to determine which solids dissolve in water.





Blwyddyn 6

Mwynhaodd Blwyddyn 6 eu sesiwn yn Llyfrgell Llanelli gyda Tomos Sion Owen, gan gael cyfle arbennig i ysgrifennu stori. Roedd y gweithdy yn ysbrydoledig, ac fe wnaeth y plant ddatblygu eu sgiliau a'u hyder mewn ysgrifennu. Diolch yn fawr iawn i Lyfrgell Llanelli a Tomos Sion Owen.

Year 6 enjoyed their session at Llanelli Library with Tomos Sion Owen, where they had a special opportunity to write a story. The workshop was inspiring, and the children developed their writing skills and confidence. Many thanks to Llanelli Library and Tomos Sion Owen.



Chwaraeon



Mae timau pêl-rwyd a rygbi'r ysgol wedi mwynhau cystadlu mewn twrnamentau yn ystod yr hanner tymor yma. Bu pawb yn chwarae'n wych, ac rydym yn falch iawn ohonynt.

The school's netball and rugby teams have enjoyed competing in tournaments during this half term. Everyone played exceptionally well, and we are extremely proud of them.



